**Bridgend County Borough Council**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| **ADRAN:** | Gofal Cymdeithasol i Blant / Lleoliadau a Gofal Maeth Cyffredinol/Gofal gan Berthynas a Sefydlogrwydd Pen-y-bont ar Ogwr |
| **SWYDD:** | Uwch-ymarferydd – Maethu a Sefydlogrwydd |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR13 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Rheolwr Tîm – Lleoliadau a Gofal Maeth Cyffredinol/Gofal gan Berthynas a Sefydlogrwydd Pen-y-bont ar Ogwr |

**DIBEN Y SWYDD:**
Gweithio ym maes Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr i gefnogi'r Rheolwr Tîm i ddatblygu amrywiaeth o wasanaethau i ddiwallu anghenion gofalwyr maeth a Gwarcheidwaid Arbennig drwy ddarparu lefel uchel o arbenigedd o ran sgiliau, gwybodaeth a phrofiad. Gweithio ar y cyd â chydweithwyr allanol a diogelu a staff Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr.

Darparu goruchwyliaeth i rai aelodau o'r tîm a chymryd rôl arweiniol wrth ddatblygu a gweithredu meysydd dynodedig o arfer da a datblygu gwasanaethau.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**
- Meddu ar lwyth achosion bach cymhleth sy'n cynnwys asesu, goruchwylio a chefnogi darpar ofalwyr maeth a gofalwyr maeth presennol a Gwarcheidwaid Arbennig.
- Ymgymryd â chyfrifoldebau rheoli llinell a thasgau eraill fel sy'n ofynnol i gynorthwyo'r Rheolwr Tîm yn ei rôl, gan ddirprwyo ar ran y rheolwr yn ôl yr angen.
- Darparu cyngor arbenigol ac ymgynghori proffesiynol/mentora i weithwyr cymdeithasol, staff diogelu a chymorth i deuluoedd a lle y bo'n briodol cyflawni tasgau mewn cydweithrediad â nhw.
- Darparu gwasanaeth ymgynghori i dimau mewn maes o arbenigedd yn seiliedig ar sgiliau, gwybodaeth a phrofiad. Cyfrannu at ddarparu gwasanaethau, safonau arfer a pherfformiad staff a sicrhau ansawdd.
- Nodi anghenion hyfforddi a datblygu staff, gofalwyr maeth a Gwarcheidwaid Arbennig a darparu ymatebion priodol. Cymryd yr awenau wrth nodi meysydd o brosiectau cymorth penodol i ofalwyr maeth a Gwarcheidwad Arbennig a strwythur a chynnwys y Digwyddiad Ymgynghori Gwybodaeth a chymorthfeydd i ofalwyr.
- Cymryd rhan yn y strategaethau recriwtio a chadw a datblygu unrhyw weithgareddau i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu gweithwyr eraill a gofalwyr maeth a nodi unrhyw fylchau mewn meysydd gwasanaeth.

- Cyflawni gofynion y swydd mewn perthynas â deddfwriaeth, rheoliadau a gweithdrefnau penodol. Cynorthwyo’r tîm i ddarparu'r gwasanaeth gorau ac ymdrechu i wella a chynnal ansawdd a safonau.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch.

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a’ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol neu gymhwyster Gwaith Cymdeithasol arall a gydnabyddir gan Ofal Cymdeithasol Cymru.<br>• Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. | Ydy<br>Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Gwybodaeth drylwyr am ddeddfwriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol bresennol, Deddf Plant 1989 a 2004, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a rheoliadau Gwasanaethau Maethu Cymru 2018 Awdurdod Lleol a'r Cod Ymarfer<br>• Gwybodaeth/sgiliau ym maes gwaith Lleoli Teuluoedd, gwaith gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal, Achosion Gofal, gweithdrefnau mabwysiadu, systemau gwybodaeth a materion sicrhau ansawdd.<br>• O leiaf tair blynedd o brofiad ôl-gymhwyso ym maes gwasanaethau diogelu Gwasanaethau Plant neu brofiad blaenorol perthnasol arall.<br>• Profiad o weithio gyda phlant a theuluoedd ag anghenion cymhleth sy'n ei gwneud yn ofynnol bodloni lefel uchel o arbenigedd.<br>• Profiad o oruchwylio, mentora a/neu reoli staff.<br>• Profiad o gymryd rhan mewn rhaglenni wedi'u cynllunio i ddatblygu sgiliau staff e.e. mentora, goruchwylio myfyrwyr, cynorthwyo staff.<br>• Profiad o nodi anghenion plant a phobl ifanc, eu rhieni biolegol a gofalwyr maeth.<br>• Profiad o baratoi adnoddau er mwyn diwallu anghenion a gwerthuso canlyniadau. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu gwneud penderfyniadau'n briodol. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |
| | • Sgiliau ardderchog ym maes ymchwilio ac asesu. | Ydy | |
| | • Gallu datrys problemau wrth weithio dan bwysau. | | |
| | • Gallu darparu perthnasoedd gwaith adeiladol â chydweithwyr ac asiantaethau eraill. | | |
| | • Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu da, gan gynnwys cyfathrebu wyneb yn wyneb a gwaith ysgrifenedig. | Ydy | |
| | • Sgiliau TG effeithiol i wneud y defnydd gorau posibl o'r cyfryngau cyfathrebu sydd ar gael i ledaenu gwybodaeth a chynnal cofnodion seiliedig ar gyfrifiaduron yn unol â gofynion y llywodraeth | | |
| | • Gallu ymdrin â materion sensitif, rheoli barn a disgwyliadau croes ac ymdopi â materion ac ymddygiad anrhagweladwy. | Ydy | |
| | • Gallu dangos ymroddiad i amddiffyn plant a phobl ifanc a gwerthfawrogi amrywiaeth a pharch ar gyfer ieithoedd, crefyddau a diwylliannau eraill. | Ydy | |
| | • Gallu cyflwyno adroddiadau a gwybodaeth. | Ydy | |
| | • Gallu deall gwybodaeth gymhleth. | | |
| | • Gallu diffinio a chyflawni targedau. | Ydy | |
| | • Gallu dangos sgiliau trefnu da. | | |
| | • Gallu dangos uniondeb personol a phroffesiynol. | Ydy | |
| | • Trwydded yrru gyda mynediad i gerbyd. | Ydy | |
| | • Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | | |